Office for Product
Safety & Standards

## Ewch ati'n gyflym

Os ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi llyncu batri botwm, **ewch â nhw'n syth i'r Adran Frys**. Efallai na fydd y symptomau'n amlwg.

Efallai y bydd eich plentyn:

- yn pesychu
- yn tagu neu'n glafoerio
- yn pwyntio at y llwnc neu'r stumog

## Cofiwch:

- ewch ati'n gyflym, hyd yn oed os nad oes symptomau
- ewch â phecyn y batri, y tegan neu'r teclyn gyda chi os gallwch chi

## Peidiwch:

- â gadael i'ch plentyn fwyta neu yfed
- â gwneud i'ch plentyn gyfogi

Office for Product
Safety & Standards



# Gall batris botwm frifo neu ladd eich plentyn


Mae batris botwm yn adweithio â phoer i greu soda costig, sy'n cael ei ddefnyddio i agor draeniau. Os bydd plentyn yn llyncu batri botwm a bod hwnnw'n mynd yn sownd yn ei bibell fwyd, gall losgi twll. Mae hyn yn creu gwaedu mewnol ac fe all ladd.

**Cadwch bob batri botwm allan o gyrraedd eich plentyn**

(22027-WEL-2) 6.7882_BEIS_OPSS Ingestion Campaign_A5 Leaflet_Button batteries FINAL v03.indd 1-2 06/04/2022 11:31

## Beth yw batris botwm?

Dyma fatris bach crwn sy'n hawdd eu llyncu. Batris lithiwm mwy o faint yw'r rhai mwyaf peryglus. Maen nhw tua'r un maint â darn pum ceiniog. Gall y batris lleiaf gael eu gosod mewn mannau fel y clustiau a'r trwyn.




## Chwiliwch am fatris botwm yn y cartref

Maen nhw i'w cael yn y canlynol:

- **teclynnau rheoli tenau**
- **teclynnau ffeindio allweddi**
- **cyfrifianellau**
- **thermomedrau**
- **ffobiau allweddi car**
- **watshis**
- **clorian y gegin neu'r ystafell ymolchi**
- **clustffonau i chwarae gemau**
- **goleuadau nos heb fflam**
- **bys-droellwyr â goleuadau LED**
- **cymhorthion clyw**
- **nwyddau bach gwirion fel hudlathau neu fandiau gwallt sy'n fflachio, teganau bygiau robot neu bysgod**




## Gwnewch yn siŵr bod eich cartref a'ch teulu'n ddiogel

- Storiwch fatris botwm sbâr yn ddiogel ac allan o gyrraedd plant. Peidiwch byth â'u gadael yn rhydd mewn droriau nac ar arwynebau.
- Wrth agor pecynnau, gwnewch yn siŵr na fydd batris yn disgyn ar y llawr.
- Os gwelwch chi bethau lle nad yw'r lle i'r batri wedi'i gloi, symudwch nhw allan o gyrraedd plant. Os yw'r eitem yn ddiffygiol, trwsiwch hi neu ei gwaredu'n ddiogel. Mae'n **rhaid** i'r lle i'r batri botwm mewn teganau fod wedi'i gloi fel na all plant gyrraedd y batri.
- Dywedwch wrth blant hŷn pam mae batris botwm yn beryglus. Eglurwch pam na ddylen nhw chwarae gyda nhw na'u rhoi i blant ifanc.
- Gall batris botwm 'marw' fod â digon o bŵer o hyd i frifo plentyn bach yn wael. Pan dynnwch chi fatri, storiwch e'n ddiogel a'i ailgylchu'n iawn ac yn brydlon.

(22027-WEL-2) 6.7882_BEIS_OPSS Ingestion Campaign_A5 Leaflet_Button batteries FINAL v03.indd 3-4 06/04/2022 11:31